



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Cyfarwyddyd Statudol

Gorffennaf 2014





## Rhagair

Mae "**Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae**" yn Ganllawiau Statudol ar sut i asesu a oes cyfleoedd digonol i blant chwarae yn eu hardaloedd, a sut i sicrhau'r cyfleoedd hynny. Fe'u cyhoeddir gan Weinidogion Cymru er mwyn manylu ar y ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol o dan adran 11 (Cyfleoedd Chwarae) ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Daeth yr adran honno o'r Mesur i'w llawn rym ar 1 Gorffennaf 2014.

Mae'r Canllawiau Statudol hyn yn cyfuno "**Creu Cyfle i Chwarae**", y Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu bod digon o gyfleoedd chwarae (2012), ynghyd â chanllawiau newydd i Awdurdodau Lleol i'w helpu i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, 2014.

Nid oes unrhyw newid o ran manylion yr asesu nac ychwaith o ran y materion y mae angen eu hystyried yn yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a nodir yn "Creu Cyfle i Chwarae: Canllawiau Statudol". Maent i'w gweld o hyd yn y Canllawiau Statudol newydd, "Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae". Mae'r canllawiau hyn yn manylu hefyd ar y ddyletswydd i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae yn sgil yr ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol drafft, "Cymru: Lle i Blant Chwarae".

"**Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae**" yw'r Canllawiau Statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i asesu bod digon o gyfleoedd chwarae, ac yna sicrhau'r cyfleoedd hynny.

## Rhagair gan y Gweinidog



Rwy'n falch iawn mai Llywodraeth Cymru yw'r un gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer cyfleoedd chwarae i blant ac rwy'n benderfynol o fwrw ymlaen â'r agenda honno drwy gychwyn y ddyletswydd hon ar Awdurdodau Lleol i asesu bod cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer pob plentyn, ac yna sicrhau'r cyfleoedd hynny ar eu cyfer.

Rydym yn gweithredu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae'n ddiogel ac, yn benodol, i helpu i sicrhau bod rhagor o gyfleoedd chwarae ar gael i blant ag anableddau.

Credwn yn gryf fod cyfleoedd chwarae yn bwysig ym mywydau plant a'u bod yn esgor ar fanteision o ran eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles. Mae'n bwysig hefyd o ran gosod y sylfeini i alluogi pob plentyn i gyflawni ei lawn botensial fel oedolyn.

Drwy'r ddeddfwriaeth hon, rydym yn parhau i wneud Cymru yn wlad lle mae gan bob plentyn amrywiaeth eang o gyfleoedd heriol a difyr i chwarae a mwynhau ei amser hamdden. I wneud hynny, bydd yn rhaid gweithio gyda'n partneriaid i ystyried yr agweddau amrywiol ar fywyd cymunedol sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae. Yn eu plith mae'r defnydd a wneir o'r amgylchedd, traffig a thrafnidiaeth; darpariaeth chwarae a hamdden, a rôl rhieni a chymunedau mewn cyfleoedd chwarae.

Hoffwn ddiolch i'r unigolion, y sefydliadau a'r rhanddeiliaid niferus eraill sydd wedi helpu i sicrhau bod y ddogfen hon yn ateb y diben, yn enwedig Chwarae Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n siŵr y bydd pob un ohonom yn parhau i gydweithio i fynd ar drywydd yr agenda bwysig hon a gwneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n croesawu cyfleoedd chwarae i blant ac sy'n diwallu anghenion pob un o'n plant ac yn parchu eu hawliau.



**Vaughan Gething AC**

Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Datblygu Polisi Chwarae yng Nghymru	5
3.	Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010	6
4.	Y Fframwaith Polisi	8
4.1	Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Gweithio mewn Partneriaeth	8
4.2	Cwblhau'r Asesiadau a'r cysylltiad â'r Cynllun Integredig Sengl	9
4.3	Darparu adnoddau a manteisio i'r eithaf arnynt	10
4.4	Sicrhau digon o gyfleoedd chwarae	10
4.5	Cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae	10
5.	Ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu	11
6.	Amserlen ar gyfer cwblhau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cynllunio, cyflwyno adroddiadau a sicrhau darpariaeth	12
7.	Diffiniad o Chwarae	14
8.	Blaenoriaethau o ran asesu cyfleoedd chwarae a hamdden a ddewisir o wirfodd	15
8.1	Chwarae fel adnodd o fewn agendâu polisi eraill	15
9.	Beth yw ystyr Cyfleoedd Chwarae Digonol?	16
9.1	Nifer y Cyfleoedd	16
9.2	Ansawdd y cyfleoedd a ddarperir	16
9.3	Amser, lle a chaniatâd	17
10.	Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Materion y mae angen eu hystyried	18
	Mater A: Poblogaeth	18
	Mater B: Diwallu anghenion amrywiol	18
	Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae	19
	Mannau Agored	19
	Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff	20
	Meysydd Chwarae	20
	Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth	21
	Darparu gwaith chwarae	21
	Gweithgareddau hamdden strwythuredig	21
	Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae	22
	Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth	23
	Gwybodaeth; cyhoeddusrwydd; digwyddiadau	24
	Mater E: Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae	25
	Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys	26
	Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol	27
11.	Datblygiadau yn y Dyfodol	31
	Atodiad A: Polisi, Deddfwriaeth a rhaglenni cyllido cysylltiedig	32
	Atodiad B: Rhestr termau	38

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwerth mawr ar chwarae ac ar ei bwysigrwydd i fywydau plant yn ein cymdeithas. Credwn fod gan blant hawl sylfaenol i allu chwarae, a bod chwarae'n rhan annatod o'u mwynhad mewn bywyd ac yn cyfrannu at eu lles. Credwn hefyd fod chwarae yn hanfodol i ddatblygiad gwybyddol; corfforol; cymdeithasol ac emosiynol plant. Mae llawer o dystiolaeth i gefnogi'r gred hon yn ogystal â dealltwriaeth gynyddol o gyfraniad chwarae nid yn unig at fywydau plant, ond hefyd at les eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.<sup>1</sup>

Diogelir hawl plant i chwarae yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol yn 2004, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr egwyddorion a nodir ynddo yn cael eu gwireddu ar gyfer ein holl blant a phobl ifanc. Mae tair erthygl sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd hon:

- **Erthygl 31 (Hamdden, chwarae a diwylliant):** Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a gweithgareddau hamdden eraill.<sup>2</sup> Rhaid darllen yr erthygl hon ar y cyd â Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar hawl y plentyn i orffwys, i hamddena, i chwarae, i weithgareddau hamdden, i fywyd diwylliannol a'r celfyddydau (erthygl 31). Diben y sylw cyffredinol yw ennyn gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd erthygl 31 i les a datblygiad plant; sicrhau bod yr hawliau o dan erthygl 31 yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd fwy cadarn.
- **Erthygl 15 (Rhyddid i ymgysylltu):** Mae gan blant yr hawl i gyfarfod â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau.
- **Erthygl 21 (Parchu safbwyntiau'r plentyn):** Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ar yr hyn a ddylai ddigwydd ac i'r farn honno gael ei hystyried.

Yng Nghymru, mae chwarae yn un o'r hawliau plant a nodir o dan Nod Craidd 4 – Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, o blith saith Nod Craidd Llywodraeth Cymru i Blant, a nodir yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, 2004*.<sup>3</sup>

Cred Llywodraeth Cymru hefyd y gall cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn helpu i liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant a helpu i'w gwneud yn fwy cydnerth.<sup>4</sup> Gall chwarae hefyd fod yn ffordd o leihau anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n gallu fforddio darpariaeth hamdden gostus a'r rheini na allant ei fforddio. Bydd hynny'n helpu i sicrhau nad yw plant yn cael eu hamddifadu o brofiadau.

Dymuna Llywodraeth Cymru greu amgylchedd yng Nghymru lle y caiff plant gyfleoedd ardderchog i chwarae a lle y gallant fwynhau eu hamser hamdden. Noda ein Polisi Chwarae:<sup>5</sup>

*"Mae chwarae mor hanfodol bwysig i bob plentyn wrth iddo ddatblygu ei sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol fel y dylai cymdeithas achub*

<sup>1</sup> Lester, S. a Russell, W. (2008) Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives. Biwro Cenedlaethol y Plant Lloegr: Llundain

<sup>2</sup> Mae CCUHP wrthi'n llunio Sylw Cyffredinol i egluro ymhellach hawl plant i chwarae, o fewn Erthygl 31

<sup>3</sup> <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/rightstoaction/?lang=cy>

<sup>4</sup> Strategaeth Tlodi Plant Cymru - <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/child-poverty-strategy/?skip=1&lang=cy>

<sup>5</sup> Polisi Chwarae (2002). <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/3291781/?lang=cy>

*ar bob cyfle i'w gefnogi a chreu amgylchedd sy'n ei feithrin. Dylai'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth ystyried effaith y penderfyniadau hyn ar y cyfleoedd a gaiff plant i chwarae."*

Er mwyn cyflawni'r diben hwn, cychwynnodd Llywodraeth Cymru ran gyntaf y ddyletswydd a geir yn adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cyfleoedd Chwarae i Blant) ym mis Tachwedd 2012. Mae'r rhan honno o'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, a hynny yn unol â rheoliadau. Mae Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012, yn nodi gofynion yr asesiadau a'r materion y mae angen eu hystyried wrth eu cynnal.

Ar 1 Gorffennaf 2014, cychwynnodd Gweinidogion Cymru ail ran y ddeddfwriaeth hon, sy'n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, a chan roi sylw i'w hasesiadau. Mae'n ofynnol hefyd o dan y ddyletswydd hon i'r Awdurdodau Lleol gyhoeddi a diweddarau gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i bennu dyletswydd o'r fath yn ei fframwaith deddfwriaethol, felly nid oes unrhyw gynseiliau i'r gwaith hwn. Dymunwn weithio gyda phob rhanddeiliad i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn addas at y diben o greu Cymru sy'n croesawu cyfleoedd chwarae, ac yn sicrhau'r holl fanteision cysylltiedig i'n plant. Croesawn eich cefnogaeth i'r Canllawiau Statudol hyn a'ch parodrwyd i'w gweithredu ac i fod mor gadarnhaol am yr agenda chwarae yng Nghymru.

## 2. Datblygu Polisi Chwarae yng Nghymru

Er mwyn sicrhau'r manteision sy'n deillio o gyfleoedd chwarae i blant, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid i lunio'r **Polisi Chwarae** yn 2002 a **Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae** yn 2006 (gweler Atodiad A, dogfennau Polisi Cysylltiedig). Roedd y dogfennau hynny'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran cyfleoedd chwarae i blant yng Nghymru a'r camau gweithredu yr oedd yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r weledigaeth honno. Os ydym am gyflawni'r nod o greu Cymru sy'n croesawu cyfleoedd chwarae a chynnig cyfleoedd ardderchog i'n plant chwarae, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i Awdurdodau Lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill hefyd weithio tuag at y nod hwn. Felly cynhwyswyd adran "Cyfleoedd Chwarae" ym **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)**, a gafodd Gydsyniad Brenhinol yn 2010.



### 3. Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Sail Gyfreithiol)

Mae Pennod 2, Adran 11 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn nodi'r ddyletswydd sydd ar Awdurdodau Lleol mewn perthynas â Chyfleoedd Chwarae.

Adran 11 –

#### **Dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas â chyfleoedd chwarae i blant**

- (1) Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal yn unol â rheoliadau.
- (2) Gall y rheoliadau gynnwys darpariaeth yn ymwneud â'r canlynol–
  - a. Materion i'w hystyried wrth asesu digonolrwydd.
  - b. Y dyddiad olaf y dylid cynnal asesiad cyntaf.
  - c. Amllder asesiadau.
  - ch. Adolygu asesiadau.
  - d. Cyhoeddi asesiadau.

Cychwynnwyd ar 1 Gorffennaf 2014(3) *Rhaid i awdurdod lleol sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw i'w asesiad o dan is-adran (1).*

Cychwynnwyd ar 1 Gorffennaf 2014(4) *Rhaid i awdurdod lleol–*

- a. *Cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn ardal yr awdurdod,*
  - b. *Diweddaru'r wybodaeth a gyhoeddir.*
- (5) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol ystyried (ymhlith pethau eraill)–
- a. Anghenion plant anabl (yn unol â'r diffiniad yn adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (p.50).
  - b. Anghenion plant o oedrannau gwahanol.

(6) Yn yr adran hon–

mae "chwarae" yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden;  
ystyr "digonol", mewn perthynas â chyfleoedd chwarae, yw nifer ac ansawdd digonol.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru gychwyn y ddyletswydd mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn ymdrin â'r ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae, adrannau 11(1); 11(2); 11(5); 11(6), ac fe'i cychwynnwyd yn 2012.

Roedd ail ran y ddyletswydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw i asesiadau 11(3); roedd hefyd yn rhoi dyletswydd arnynt i gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd ac i ddiweddaru'r wybodaeth honno 11(4). Cychwynnwyd y ddyletswydd hon ar 1 Gorffennaf 2014, ar ôl i'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu'r Awdurdodau Lleol i wella cyfleoedd chwarae gael eu hystyried yn llawn.



Nod y Canllawiau Statudol hyn yw:–

- helpu Awdurdodau Lleol i gwblhau eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u Cynlluniau Gweithredu Chwarae er mwyn sicrhau digon o gyfleoedd o'r fath. Mae'r Canllawiau'n nodi diben y ddyletswydd a'r materion i'w hystyried wrth asesu digonolrwydd, fel y'u nodir o dan adran 10. Mae pecyn cymorth hefyd ar gael i'w helpu i baratoi'r asesiadau.<sup>6</sup>
- helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Byddant yn gwneud hynny drwy roi eu Cynlluniau Gweithredu Chwarae ar waith. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu cynlluniau o'r fath er mwyn cynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth a gwella'r diffygion a nodwyd wrth iddynt gynnal eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

O dan Adran 71 o'r Mesur, ystyr "plentyn" ("child") yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed.

Cyhoeddir y canllawiau hyn yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru), sy'n dweud:

*Wrth arfer ei swyddogaethau o dan **adran 11** (Dyletswyddau awdurdodau lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) ac **adran 12** (Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol), **rhaid** i awdurdod lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.*

Ac yn unol ag Adran 70 (canllawiau) o'r Mesur, sy'n dweud:

- (1) Mae'r adran hon yn cael effaith o ran unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn i gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau.
- (2) O ran Gweinidogion Cymru–
  - (a) cânt roi canllawiau i gyrff yn gyffredinol neu i un corff penodol neu i gyrff penodol;
  - (b) cânt ddyroddi canllawiau gwahanol i gyrff gwahanol neu mewn perthynas â hwy;
  - (c) rhaid iddynt, cyn iddynt ddyroddi canllawiau, ymgynghori â'r gyrff hynny y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau;
  - (d) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau.



<sup>6</sup> [www.chwaraecymru.org.uk/cym/digonolrwydd](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/digonolrwydd)

## 4. Y Fframwaith Polisi

### 4.1 Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Sicrhau'r Cyfleoedd hynny drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio

Er mwyn creu cymdeithas sy'n croesawu cyfleoedd chwarae ac sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a hamdden, mae angen i bob partner yn y gymuned gydweithio tuag at y nod hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau Lleol i gydnabod pwysigrwydd cyfleoedd chwarae ym mywydau plant ac i wneud ymrwymiad cadarn i weithio'n ddiwyd o fewn eu strwythurau eu hunain; gyda sefydliadau partner; gyda phlant a'u teuluoedd a chymunedau i sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd chwarae y maent am eu cael ac y mae ganddynt yr hawl i'w disgwyl.

Mae'r partneriaethau perthnasol yn debygol o gynnwys:

- Cynghorau Tref a Chymuned.
- Sefydliadau yn y trydydd sector, yn benodol, cymdeithasau chwarae rhanbarthol.
- Y sector preifat os yw hynny'n briodol.
- Grwpiau cymunedol.
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.
- Byrddau lechyd.
- Cymdeithasau Tai, yr Heddlu a Gwasanaethau Tân fel y bo'n briodol.

Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau perthnasol yn ei ardal, gellir cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae yn rhanbarthol ac ar draws Awdurdodau Lleol os yw hynny'n briodol, a chyd a sefydliadau cenedlaethol sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu cyfleoedd chwarae. Dylai pob ardal fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu cyfleoedd chwarae i blant yn ei hardal ei hun, yn ogystal â chefnogi a rhannu arferion da gydag awdurdodau/sefydliadau eraill i hyrwyddo cyfleoedd chwarae i bob plentyn yng Nghymru. Wrth gynnal Asesiadau a rhoi'r Cynlluniau Gweithredu ar waith, dylid ystyried darpariaeth y gall plant y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Lleol ei defnyddio.

Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o bartneriaid, yn ogystal â holl feysydd polisi a chyflawni'r Awdurdodau Lleol, yn gwneud cyfraniad digonol yn hyn o beth, ac er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i asesu a chynllunio ar gyfer digon o gyfleoedd chwarae, ac yna sicrhau'r cyfleoedd hynny, dylai'r Awdurdod Lleol sefydlu **Grŵp Monitro Chwarae** neu grŵp tebyg. Dylai'r grŵp hwnnw gynorthwyo'r **cyfarwyddwr arweiniol**, yr **aelod arweiniol ar wasanaethau plant a phobl ifanc** (pwynt 4.2) a'r **swyddog a ddynodwyd i arwain ar swyddogaethau rheoli a chyflawni** (mater G) i gyflawni'r ddyletswydd o dan y Mesur, a thrwy hynny sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn ardal yr awdurdod. Dylai hefyd wahodd Hyrwyddwyr Chwarae i fod yn rhan o waith y grŵp er mwyn ennyn diddordeb yn y gwaith hwn a chael cymorth i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant.

Er mwyn helpu'r Awdurdodau Lleol i rannu gwybodaeth am y cynnydd y maent yn ei wneud o ran sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau a chyd a rhanddeiliaid eraill i ddarparu gwybodaeth am astudiaethau achos o dan yr adran am Gyfleoedd Chwarae ar ei gwefan.

## 4.2 Cwblhau'r Asesiadau

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ac yna, ar sail yr asesiad hwnnw, i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

- Os bydd asesiad yn nodi nad oes cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ardal yr Awdurdod Lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i wella'r cyfleoedd chwarae i blant yn ardal yr Awdurdod Lleol hwnnw.
- Os bydd asesiad yn nodi bod cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ardal yr Awdurdod Lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd chwarae i blant yn parhau i gael eu darparu yn ardal yr Awdurdod Lleol hwnnw.

Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i Awdurdodau Lleol ac asiantaethau partner allweddol gydweithio i wella lles plant a phobl ifanc yn yr ardal leol. Rhoddodd Deddf Plant 2004 ddyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i benodi **cyfarwyddwr arweiniol** a dynodi **aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc**. Disgwylir y bydd y cyfarwyddwyr a'r aelodau arweiniol hyn yn gyfrifol am gwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, am ddatblygu Cynllun Gweithredu Chwarae, a'i roi ar waith.

### Y Cynllun Integredig Sengl neu'r cynllun lefel uchel a fydd yn ei olynu

Drwy'r Cynllun Integredig Sengl yr eir ati i gynllunio a chyflawni camau gweithredu ar flaenoriaethau lleol, ac i fonitro a gwerthuso canlyniadau, gan wneud hynny ar sail asesiad o anghenion lleol. Caiff gwaith i ddatblygu, monitro a chraffu ar y Cynllun Integredig Sengl ei gydgyssylltu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, gan ddwyn ynghyd arweinwyr o faes llywodraeth leol, y GIG, yr heddlu, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru ei hun.

Dylai cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau bod yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn rhan o'r asesiad o anghenion lleol. Dylai'r cynnydd a wneir o ran gwella cyfleoedd chwarae i blant, fel y'u nodir yn y Cynllun Integredig Sengl, gyd-fynd â'r cylch cynllunio yn *Cydamcanu – Cydymdrechu: Partneriaethau a Chynlluniau Integredig*<sup>7</sup>. Dylid cynnwys yr asesiad a'r cynigion ar gyfer sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn y broses o gynllunio, gweithredu ac adolygu'r Cynllun Integredig Sengl yn ystod pob cam o'r cylch cynllunio.

Cynlluniau gweithredu yw blociau adeiladu hanfodol y Cynllun Integredig Sengl. Maent yn nodi'n fanwl y camau y bydd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn eu cymryd dros dair i bum mlynedd i gyflawni canlyniadau sy'n helpu i gyflawni nodau hirdymor penodol.

Erys dyletswyddau cyfreithiol ar bartneriaid lleol mewn perthynas â chwarae. Dylid cynnwys plant wrth gynllunio cyfleoedd chwarae, a dylid monitro'r ddarpariaeth chwarae fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau ymgysylltu â dinasyddion a gweithdrefnau craffu.

Adeg cyhoeddi'r Canllawiau hyn, Cynllun Integredig Sengl yr Awdurdod Lleol yw'r cynllun lefel uchel y dylai'r Cynllun Gweithredu Chwarae gyfrannu ato. Mae'n bosibl y bydd hynny'n newid yn y dyfodol, a dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu gyfrannu at unrhyw gynllun lefel uchel a fydd yn olynu'r Cynllun Integredig Sengl.

<sup>7</sup> <http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationevents/publications/sharedpurpdel/?skip=1&lang=cy>

### 4.3 Darparu adnoddau a manteisio i'r eithaf arnynt

Mae chwarae yn cwmpasu ystod eang o ddarpariaeth; cyfleusterau; gwasanaethau a sefydliadau cymunedol, felly mae'n hanfodol bod cyllidebau sy'n cwmpasu'r holl feysydd hyn yn cyfrannu at y nod o sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae.

O wneud newidiadau bach i'r modd y defnyddir cyllidebau, rhagwelir y bydd modd cynnig llawer mwy o gyfleoedd chwarae.

Wrth i bartneriaid lleol fynd ati i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu, dylent nodi'r cyllidebau hynny, a'u defnyddio er mwyn gwella cyfleoedd chwarae, gan ailflaenoriaethu os oes angen. Wrth baratoi Cynlluniau Integredig Sengl, dylid adolygu'r cyllidebau ar gyfer meysydd polisi perthnasol sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae i blant a sicrhau eu bod yn esgor ar y manteision gorau posibl.

### 4.4 Sicrhau cyfleoedd chwarae digonol

O dan y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd, dylai'r Awdurdodau Lleol fynd ati mewn pob ffordd ymarferol i gynnal y ddarpariaeth a'r gwasanaethau. Dylent hefyd wella cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, a darparu mwy ohonynt. Wrth wneud hynny, dylent ystyried y cryfderau a'r diffygion a nodwyd yn eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a hefyd y gofynion asesu sydd i'w gweld yn y Rheoliadau a'r canllawiau hyn.

Yn benodol, rhaid sicrhau cyfleoedd chwarae digonol drwy weithredu'r camau a nodir yng **Nghynlluniau Gweithredu Chwarae** yr Awdurdodau Lleol, a gaiff eu datblygu er mwyn cynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth a mynd i'r afael â'r diffygion a nodir yn yr asesiad. Rhaid mynd ati'n flynyddol i ddatblygu ac i adolygu'r Cynlluniau Gweithredu, a hynny er mwyn cofnodi'r cynnydd a fydd wedi'i wneud a nodi'r camau y bydd angen eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd angen hefyd nodi'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth o dan bwynt 6.

### 4.5 Cyhoeddi gwybodaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob Awdurdod Lleol ddatblygu adran amlwg ar chwarae ar ei wefan, gan roi gwybodaeth gynhwysfawr am:

- Barciau, meysydd chwarae a mannau eraill yn yr awyr agored sy'n rhoi cyfleoedd i blant chwarae;
- Darpariaeth chwarae dan do; gweithgareddau chwarae, a chlybiau sy'n cynnig cyfleoedd chwarae;
- Cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau;
- Digwyddiadau ar gyfer plant a theuluoedd; a digwyddiadau cymunedol ehangach lle gall plant chwarae.

Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael hefyd drwy'r prif ddulliau eraill sydd gan yr Awdurdod Lleol o roi cyhoeddusrwydd i'w ddarpariaeth, ei wasanaethau a'i ddigwyddiadau, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a CLIC os yw hynny'n briodol.

Dylai'r holl wybodaeth hon gael ei diweddarau'n rheolaidd.

**Mae hwn yn ofyniad statudol o dan adran 11(4) o'r Mesur.**

## 5. Ymgynghori , Cyfranogi ac Ymgysylltu

Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn bodloni gofynion plant, mae'n hollbwysig ymgynghori â hwy am y math o weithgareddau chwarae a hamdden y maent yn dymuno'u cael.

Dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori â phlant i ganfod pa gyfleoedd chwarae; darpariaeth chwarae; gweithgareddau a digwyddiadau y maent am eu cael yn eu hardal. Dylai'r dulliau cyfranogi ac ymgynghori gydymffurfio â Safonau Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru<sup>8</sup> ac Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n ymdrin â Chyfranogi<sup>9</sup>. Dylai'r Awdurdod hefyd ymgynghori â rhieni; y gymuned leol ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn datblygu cyfleoedd chwarae a datblygu cymunedau sy'n croesawu plant a chyfleoedd chwarae. Gellir defnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru<sup>10</sup> i gefnogi'r broses hon. Mae rhagor o ganllawiau ar sut i fynd ati i ymgynghori am chwarae i'w gweld yn y **pecyn cymorth**<sup>11</sup> a ddatblygwyd er mwyn helpu'r Awdurdodau Lleol i gynnal yr asesiad.

Dylai'r asesiad ystyried y materion a ganlyn:

- Barn plant, a gafwyd drwy ymgynghori, ar y ddarpariaeth chwarae a hamdden y maent am ei cael yn eu hardaloedd; sut yr hoffent i'w cymdogaeth gael ei threfnu er mwyn darparu'r cyfleoedd chwarae y maent am eu cael; a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag chwarae. Dylai'r ymgynghoriad gynnwys barn plant sy'n defnyddio'r cyfleoedd chwarae sy'n bodoli eisoes yn ogystal â barn y plant nad ydynt yn gwneud hynny.
- Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwaith ymgynghori hwn a sut y'u defnyddiwyd neu y cânt eu defnyddio i ddylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Barn rhieni, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, a gafwyd drwy ymgynghori, ar ddarpariaeth/ cyfleoedd chwarae a sut y mae'r farn honno wedi dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol, neu sut y bydd yn gwneud hynny.

Wrth fynd ati bob blwyddyn i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae, i'w rhoi ar waith a'u hadolygu, dylid ymgynghori â'r plant a'r teuluoedd y mae, neu y bydd, unrhyw gamau gweithredu yn effeithio arnynt, gan roi cyfle iddynt fynegi barn am yr hyn a gyflawnwyd; y manteision a fyddai'n deillio o ddarparu mwy o gyfleoedd chwarae; a chmau i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

<sup>8</sup> <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/participationstandards/?lang=cy>

<sup>9</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/section/12>

<sup>10</sup> <http://www.participationcymru.org.uk/principles>

<sup>11</sup> <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/toolkit/?skip=1&lang=cy>



## 6. Amserlen ar gyfer cwblhau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, y Cynlluniau Gweithredu Chwarae, sicrhau cyfleoedd chwarae digonol a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru

Cychwynnodd y ddyletswydd i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar **2 Tachwedd 2012**. Cychwynnodd y ddyletswydd i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae ar **1 Gorffennaf 2014**.

### Asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae

O dan y ddyletswyddau hyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol fynd ati bob tair blynedd i gynnal asesiad o gyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal, fel y nodir yn y Rheoliadau.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u Cynlluniau Gweithredu Chwarae i Lywodraeth Cymru. Cafodd yr asesiadau a'r cynlluniau gweithredu cyntaf eu cwblhau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013.

### Dyma'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno i Weinidogion Cymru:

1. **Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** – Rhaid iddo fod yn asesiad llawn o'r cyfleoedd chwarae yn ardal yr Awdurdod Lleol, a hynny ar y templed ar gyfer Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a ddarparwyd ym mhecyn cymorth Llywodraeth Cymru.
2. **Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** – Rhaid iddo gynnwys crynodeb o brif ganlyniadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thynnu sylw at y camau y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn sicrhau cyfleoedd digonol. Rhaid cyhoeddi'r crynodeb hwn ar wefan yr Awdurdod Lleol.
3. **Cynllun Gweithredu Chwarae Blynyddol** sy'n manylu ar y targedau, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir ar gyfer cynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth a mynd i'r afael â'r diffygion a nodir yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Bydd angen diweddarau'r Cynllun hwn bob blwyddyn.

### Sicrhau cyfleoedd chwarae digonol

O dan y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, dylai'r Awdurdodau Lleol weithio gyda'u partneriaid i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae a'u rhoi ar waith mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r diffygion ac yn cynnal yr agweddau cryf ar y ddarpariaeth, fel y'u nodwyd yn yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Dylid mynd ati'n flynyddol i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Chwarae a'u rhoi ar waith. Dylai'r Awdurdodau Lleol fedru dangos o'r naill flwyddyn i'r llall eu bod yn parhau i wella o ran sicrhau cyfleoedd chwarae.

Bydd yn rhaid i'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynlluniau Gweithredu gyfrannu at y Cynlluniau Integredig Sengl neu at gynlluniau lefel uchel eraill a fydd gan yr Awdurdodau Lleol yn y dyfodol, fel y nodir ym mhwynt 4.2.

### Adroddiad i Weinidogion Cymru ar asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae, a sicrhau'r cyfleoedd hynny

Rhaid i'r Awdurdodau Lleol gyflwyno'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, y Cynlluniau Gweithredu Chwarae, ac adroddiadau eraill i swyddogion Llywodraeth Cymru, fel y nodir isod. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i feithrin perthynas waith gref â'r Awdurdodau Lleol wrth iddynt yrru'r agenda chwarae yn ei blaen, gan wneud hynny drwy rannu gwybodaeth a monitro'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae.

**Amserlen ar gyfer asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae , a sicrau'r cyfleoedd hynny, dros y 10 mlynedd nesaf.**

<b>Hydref 2014</b>	<b>1. Adroddiad Cynnydd ar Gynllun Gweithredu Chwarae 2013-2014</b> <b>2. Cynllun Blynyddol Gweithredu Chwarae 2014-2015</b> <b>3. Amserlen i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Blynyddol Gweithredu Chwarae 2014-2015</b>
<b>Mawrth 2015</b>	<b>1. Adroddiad Cynnydd ar Gynllun Gweithredu Chwarae 2014-2015</b> <b>2. Cynllun Blynyddol Gweithredu Chwarae 2015-2016</b> <b>3. Amserlen i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Blynyddol Gweithredu Chwarae 2015-2016</b>
<b>Mawrth 2016</b> <b>Mawrth 2019</b> <b>Mawrth 2022</b> <b>Mawrth 2025</b>	Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae; y Crynodeb Gweithredol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae; a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf i Weinidogion Cymru.  Dylai'r Awdurdodau Lleol gyhoeddi'r Crynodebau Gweithredol o'r Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar eu gwefannau. Rhaid i'r crynodebau a gyhoeddir gynnwys canlyniadau'r Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thynnu sylw at y camau gweithredu y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu eu cymryd i sicrau cyfleoedd chwarae digonol.  Rhaid mynd ati'n flynyddol i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Chwarae a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.  Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol ddefnyddio canlyniadau'r Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i gyfrannu at y Cynllun Integredig Sengl (gweler y Canllawiau ar Gydarnegu, Cydymdrechu: Partneriaethau a Chynlluniau Integredig). <sup>12</sup>

Aed ati ar y cyd â Chwarae Cymru i ddatblygu pecyn cymorth<sup>13</sup> er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i baratoi ar gyfer ac i gynnal Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys templedi a fydd yn eu cynorthwyo yn hyn o beth.

<sup>12</sup> <http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationevents/publications/sharedpurpdel/?lang=cy>

<sup>13</sup> [www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthdigonolrwydd](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthdigonolrwydd)



## 7. Diffiniad o Chwarae

Y diffiniad o chwarae yn y Polisi Chwarae a'r Cynllun Cyflawni yw'r un a ddatblygwyd gan y sector chwarae, ac fe'i cydnabyddir yn rhyngwladol, sef:

*“Mae chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig o ran y plant unigol, ond hefyd o ran y gymdeithas y maent yn byw ynddi.”*

Dymuna Llywodraeth Cymru bwysleisio'r diffiniad hwn o chwarae. Mae'n cydnabod hefyd bod chwarae'n gally cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden.

Cred Llywodraeth Cymru fod creu amgylchedd lle y gall plant chwarae'n rhydd yn ganolog i nod yr adran hon o'r Mesur. Cydnabyddwn fod ein cymdeithas wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran pa mor dderbyniol yw hi i blant fynd allan i chwarae a threfnu ble maent yn mynd a beth maent yn ei wneud yn eu hamser hamdden. Mae hyn wedi digwydd am amryw o resymau, gan gynnwys mwy o bryderon am y risgiau i blant yn sgil mwy o draffig; y canfyddiad y gallai rhai oedolion fod yn fygythiad i blant; diffyg manau diogel i chwarae; mwy o ddefnydd o'r teledu a'r cyfrifiadur ac weithiau ganfyddiad negyddol o blant yn chwarae gan rannau eraill o'r gymuned. Oherwydd y rhesymau hyn, ein nod yw sicrhau bod cymunedau'n croesawu mwy o gyfleoedd chwarae drwy werthfawrogi a chynyddu nifer y cyfleoedd chwarae o ansawdd sydd ar gael ym mhob rhan o'r gymuned. Ein nod yw gweld mwy o blant yn chwarae dan do ac yn yr awyr agored a thrwy hynny'n mwynhau'r manteision iechyd, cymdeithasol, gwybyddol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â chwarae.

At ddiben y Mesur, diffinnir chwarae fel “unrhyw weithgaredd hamdden” (Adran 11(6) o'r Mesur). Mae'r diffiniad o chwarae yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i “unrhyw weithgaredd hamdden”. Mae hyn yn cydnabod bod plant yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a drefnir yn bennaf gan oedolion i blant, a'u bod yn cael budd o'r gweithgareddau hynny. Gall y gweithgareddau hynny gynnwys clybiau plant ac ieuentid; gweithgareddau mewn canolfannau hamdden, a chwaraeon; gweithgareddau diwylliannol a'r celfyddydau; canolfannau chwarae dan do, bysiau chwarae a digwyddiadau a drefnir i blant a'u teuluoedd. Gall y gweithgareddau hamdden hyn gynnig cyfuniad o weithgareddau wedi'u trefnu a arweinir gan oedolion, cyfleoedd i chwarae a ddewisir o wirfodd yn ogystal â chyfleoedd chwarae a arweinir gan blant. Mewn unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn, dylai'r plant gael dewis a ydynt am gymryd rhan ai peidio a dylent gael cyfle i leisio barn ar y cyfleoedd a gynigir a sut y cânt eu trefnu.

Dyma'r amrywiaeth o gyfleoedd chwarae i blant a gwmpesir gan y Mesur:–

- **Chwarae rhydd** – sy'n cael ei oruchwylio/hwyluso gan oedolion, neu beidio.
- **Gweithgareddau hamdden strwythuredig** – sydd, yn bennaf, yn cael eu harwain gan oedolion, gyda rheolau a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Efallai y bydd y cyfleoedd hyn ar gael mewn amrywiaeth o fannau a lleoliadau. Gall unrhyw leoliad gynnig cyfleoedd i blant chwarae o'u gwirfodd a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden strwythuredig.

**Ceir enghreifftiau o'r categorïau hyn a rhestr termau yn Atodiad B.**



## 8. Blaenoriaethau o ran asesu a sicrhau gweithgareddau chwarae a hamdden a ddewisir o wirfodd

Dylai'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i'w cynnal gan bob Awdurdod Lleol o dan y ddyletswydd hon gynnwys asesiad cynhwysfawr o gyfleoedd chwarae a ddewisir o wirfodd fel y'u disgrifir yn y Polisi Chwarae.

Dylai'r asesiad hefyd ymdrin â gweithgareddau hamdden strwythuredig a ddewisir o wirfodd ac sy'n cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol. Mae Nod Craidd 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn cwmpasu'r meysydd hyn, ynghyd â chwarae. Dylai nodi a yw'r ddarpariaeth am ddim neu a oes tâl mynediad. Cydnabyddwn fod llawer o waith wedi'i wneud ac wrthi'n cael ei wneud yn y meysydd hyn ac nid ydym am ddyblygu asesiadau eraill. Rydym, felly, am weld datganiadau clir a chryno am y meysydd darpariaeth hyn, sy'n croesgyfeirio at asesiadau perthnasol eraill o ddulliau cyflawni er mwyn i'r Awdurdodau Lleol fedru defnyddio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes.

Wrth fynd ati i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, dylai'r Awdurdod Lleol roi pwyslais ar y camau gweithredu hynny a nodwyd wrth gynnal yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae a thrwy'r broses gynllunio. Dylai hefyd ystyried y cyfleoedd sydd gan blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, ac i ba raddau y mae'r meysydd polisi a chyflawni hynny o gymorth i sicrhau bod gan blant gyfleoedd chwarae y maent yn eu dewis o'u gwirfodd.

### 8.1 Chwarae fel adnodd o fewn agendâu polisi eraill

Mae chwarae'n bwysig ynddo'i hun. Ystyrir ei fod hefyd yn ddull neu'n ffordd bwysig o gyflawni agendâu eraill sy'n ymwneud â lles a datblygiad plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofal plant a datblygu'r blynyddoedd cynnar.
- Addysg, yn arbennig y Cyfnod Sylfaen.
- Byw'n iach a lles.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bod chwarae'n bwysig ynddo'i hun a hefyd bod gweithwyr proffesiynol a phobl eraill sy'n gweithio mewn meysydd gwasanaeth i blant yn ei ystyried yn fodd i ddysgu drwy brofiad; yn fodd i wneud gweithgarwch corfforol; ac mewn rhai cyd-destunau, yn fath o therapi. Gall cyfleoedd chwarae a arweinir gan blant hefyd helpu i gyflawni'r nod yn y meysydd hyn. Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr ym mhob maes perthnasol yn ymwybodol o'r cydbwysedd rhwng chwarae er mwyn chwarae, a chwarae sy'n cyfrannu at agendâu eraill.

Gall darparu cyfleoedd chwarae o ansawdd hefyd gyfrannu'n helaeth at agendâu ar gyfer y gymuned gyfan, gan gynnwys:

- Diogelwch y gymuned – drwy ddarparu amgylcheddau diogel i blant a dinasyddion eraill.
- Datblygu cynaliadwy – drwy ddarparu amgylcheddau sy'n denu teuluoedd i weithio a byw mewn ardaloedd sy'n diwallu anghenion y teulu cyfan dros gyfnod o amser.



## 9. Beth yw ystyr cyfleoedd chwarae digonol?

Mae Adran 11(6) yn nodi bod “digonol”, mewn perthynas â chyfleoedd chwarae, yn golygu **nifer** ac **ansawdd** digonol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw pennu safonau gofynnol penodol o ran nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae mewn ardal benodol yn fater hawdd, a hynny oherwydd ei fod yn dibynnu ar sawl ffactor sy'n amrywio:

- Yr amgylchedd naturiol a daearyddiaeth yr ardal.
- Yr amgylchedd adeiledig a nodweddion y cymunedau.
- Demograffeg yr ardal.
- Y cyfleoedd a'r ddarpariaeth chwarae sy'n bodoli eisoes.
- Y strwythurau sefydliadol sy'n bodoli eisoes.

Bydd y rhain yn effeithio ar:

- Y sefyllfa bresennol.
- Pa newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn creu amgylchedd sy'n croesawu cyfleoedd chwarae.
- Sut y gellir cyflawni'r rhain.

Cydnabyddwn y bydd yr hyn a ystyrir yn ddigonol ac yn gyflawnadwy yn dibynnu ar yr amryfal ffactorau uchod ac y dylid ei bennu'n lleol, yn unol â'r amcanion a'r materion i'w hystyried a nodir yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol hyn. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â phlant, eu teuluoedd a chymunedau.

### 9.1 Nifer y Cyfleoedd

Dylid sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael fel bod unrhyw blentyn yn gallu chwarae'n rhydd a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn ei gymuned ar adegau ac mewn mannau sy'n diwallu ei anghenion.

### 9.2 Ansawdd y cyfleoedd a ddarperir

Dylai'r Awdurdod Lleol asesu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant yn ei ardal er mwyn gweld i ba raddau y maent yn diwallu anghenion cymdeithasol y plant yn yr ardal, ynghyd â'u hanghenion o ran mwynhad a datblygiad. Dylai hefyd sicrhau darpariaeth yn hyn o beth. Lluniwyd sawl dogfen gan sefydliadau chwarae arbenigol sy'n rhoi cyngor ynghylch y meini prawf sy'n gysylltiedig â mannau chwarae llwyddiannus o ansawdd da. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog<sup>14</sup> yn un hyblyg a diddorol, y gellir ei addasu a'i amrywio. Mae'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gymdeithasu, i fod yn greadigol a dyfeisgar, ymateb i heriau a gwneud dewisiadau. Mae'n fan cyhoeddus yr ymddiriedir ynddo lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, yn eu hamser eu hunain, ar eu telerau eu hunain.

Mae darpariaeth chwarae o ansawdd yn rhoi'r cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â'r canlynol neu brofi'r canlynol:

- **Plant eraill** – o oedrannau a galluoedd gwahanol gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, trafod, cydweithio, dadlau a datrys anghydfodau.

<sup>14</sup> Play Wales <http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/amgylcheddchwaraecyfoethog>

- **Y byd naturiol** – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd.
- **Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a’u trafod, eu symud a’u haddasu, eu hadeiladu a’u chwalu.
- **Y pedair elfen** – daear, awyr, tân a dŵr.
- **Her ac ansicrwydd** – cyfleoedd graddol i fentro; ar lefel gorfforol ac emosiynol hefyd.
- **Newid hunaniaeth** – chwarae rôl a gwisgo i fyny.
- **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, cydbwysu, rhoio, siglo, sleidio a throelli.
- **Chwarae gwyllt** – chwarae ymladd.
- **Y synhwyrâu** – synau, blas, gwriad, aroglau a golygfeydd.

O dan adrannau gwahanol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, dylai’r Awdurdod Lleol ystyried i ba raddau y caiff plant gyfle i chwarae mewn mannau chwarae â gwerth chwarae uchel; ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden sy’n diwallu eu hanghenion.

Wrth fynd ati i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, dylai’r Awdurdodau Lleol sicrhau bod eu Cynlluniau Gweithredu Chwarae yn cael eu datblygu a’u rhoi ar waith mewn modd sy’n sicrhau cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn.

### 9.3 Amser, Lle a Chaniatâd

Er mwyn i blant gael cyfleoedd chwarae digonol, mae angen amser arnynt i chwarae, lle i chwarae a chydabyddiaeth gan oedolion bod gan bob plentyn yr hawl honno, fel y bo pob un ohonynt yn cael yr amser a’r lle hwnnw.



## 10. Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Materion y mae angen eu hystyried wrth asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae

Eir ati yn yr adran hon i nodi'r materion y mae angen eu hystyried wrth asesu a oes cyfleoedd chwarae digonol. Bydd yr aseiad yn dangos y cryfderau a'r diffygion ar gyfer pob un o'r materion hynny, ynghyd â'r camau y bwriedir eu cymryd er mwyn cynnal yr agweddau cryf a mynd i'r afael â'r diffygion.

Er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, rhaid i'r Awdurdodau Lleol ddatblygu a rhoi ar waith Gynlluniau Gweithredu Chwarae (fel y nodir o dan bwynt 6) sy'n ymdrin â'r holl faterion i'w hystyried wrth gynnal yr aseidiadau.

### Mater A: Poblogaeth

Dylai'r aseiad gyflwyno data am nifer y plant sy'n byw yn ardal yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd a rhagolwg ar gyfer y pum mlynedd nesaf, fel y bo modd mynd ati i asesu eu gofynion chwarae posibl. Dylai'r data roi gwybodaeth am nifer y plant mewn categorïau gwahanol a all effeithio ar eu gofynion chwarae. Dylai'r data hefyd ddangos a yw'r ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai dan anfantais neu ddifreintiedig.

Dylai gynnwys nifer y plant ym mhob ward, a ddosberthir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is, neu'n ardaloedd a nodwyd gan yr awdurdod lleol yn rhai sy'n briodol at ddibenion cynllunio digonolrwydd, yn ôl:

- Grwpiau oedran ar gyfer plant 0–3 oed; plant 4–7 oed; plant 8–12 oed; pobl ifanc 13–15 oed; pobl ifanc 16–17 oed.
- Nifer y plant anabl a gofnodwyd ym mhob grŵp oedran.
- Cymraeg fel iaith gyntaf a'r rheini a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Plant lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf
- Ffactorau diwylliannol eraill a gofnodwyd, gan gynnwys ethnigrwydd (yn cynnwys plant sipsiwn – teithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches).

### Mater B: Diwallu anghenion amrywiol

Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a dod ynghyd os yw'n dymuno gwneud hynny. Dylai gydnabod y gall rhwystrau wynebu rhai plant sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn yr amrywiaeth o gyfleoedd chwarae yn eu hardal. Gallai hynny ddeillio o anabledd/nam; gwerthoedd diwylliannol cymunedau'r plant eu hunain neu ffactorau eraill yn ymwneud â'r amgylchedd neu agweddau. Dylai'r aseiad ystyried i ba raddau y mae'r canlynol yn wir:

- Mae'r cyfleoedd chwarae yn bodloni gofynion plant o gymunedau a diwylliannau amrywiol, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd gwledig anghysbell.
- Mae'r cyfleoedd chwarae yn bodloni gofynion plant Cymraeg eu hiaith.
- Mae'r cyfleoedd chwarae o fewn cyrraedd i blant anabl ac yn eu cynnwys. Gall hyn gynnwys cymorth i fanteisio ar gyfleoedd chwarae.
- Mae darpariaeth arbenigol ar gael i blant anabl os nodwyd yn glir bod angen y ddarpariaeth honno.
- Mae gwaith cynllunio cymunedol; mentrau traffig a thrafnidiaeth yn mynd i'r afael ag anghenion plant anabl i fanteisio ar gyfleoedd chwarae.

## Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

### Mannau Agored

Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod y gall pob man agored, gan gynnwys y rheini y gall y cyhoedd eu defnyddio er nad ydynt yn eiddo iddynt, fod yn fannau pwysig i blant chwarae ynddynt neu fynd drwyddynt i gyrraedd ardaloedd chwarae eraill neu fannau eraill y maent yn mynd iddynt. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried:

- Glaswelltir/prysgdir.
- Coetir a manau gwyrdd amwynder.
- Traethau a glannau afonydd a llynnoedd.
- Parciau a gerddi cyhoeddus (yn ogystal ag ardaloedd chwarae penodedig o fewn y parciau).
- Strydoedd preswyl.
- Tir ysgolion.
- Safleoedd tir llwyd.
- Meysydd pentrefi, sgwariau trefi, plazas a manau cyhoeddus trefol agored eraill.
- Darnau o dir cysylltiedig, er enghraifft ar hyd ffyrdd a llwybrau.

Fel rhan o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio Asesiadau o Fannau Agored sy'n bodoli eisoes a ffynonellau lleol eraill o wybodaeth i fapio ardaloedd a ddefnyddir at ddibenion chwarae neu y gellid eu defnyddio at y dibenion hynny. Dylai'r manau agored a ystyrir gynnwys y rheini a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 16, "Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored"; Nodyn Cyngor Technegol 12, "Dylunio" ac yn y ddogfen, Creu Cymru Egniol (2009)\* yn ogystal â safleoedd tir llwyd; strydoedd preswyl; a thir ysgolion.

Dylid asesu'r lle o ran y canlynol:

- Ei werth o ran chwarae.
- Pellter teithio o gartrefi plant heb unrhyw rwystrau ffisegol sylweddol.
- Ei hygyrchedd.
- A oes unrhyw beryglon amhriodol yno.
- Lefelau derbyniol o gyfleoedd i fentro mewn modd buddiol.
- Y defnydd a wneir ohono ar hyn o bryd at ddibenion chwarae.
- Y potensial i'w ddefnyddio at ddibenion chwarae.

Caiff unrhyw newid o ran y defnydd a wneir o fannau agored, neu ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, ei gwmpasu gan y canllawiau a'r rheoliadau a nodir fel rhan o'r system gynllunio ym *Mholisi Cynllunio Cymru* a'r Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig<sup>15</sup>.

Dylai Awdurdod Lleol gydweithredu'n agos â Swyddog Chwarae'r Awdurdod wrth fynd ati i gynnal unrhyw asesiad sy'n ymwneud â chynllunio manau agored a gweithgareddau hamdden. Dylai Asesiadau o Fannau Agored fod yn sail i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i'r gwrthwyneb, er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

<sup>15</sup> <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/policyindex/?lang=cy>

## Sicrhau cyfleoedd chwarae digonol

Wrth sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae drwy'r Cynllun Gweithredu Chwarae, dylai'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod y cydweithredu a welwyd wrth gynnal yr asesiad yn parhau wrth iddynt fynd ati i ddatblygu a chymryd camau i wella manau agored at ddibenion chwarae. Dylai'r Grŵp Gweithredu Chwarae gynnwys cynrychiolwyr o Adran Gynllunio'r Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod y polisi hwnnw'n gwneud cyfraniad cadarn i'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae.

## Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried:

- Meysydd chwarae a manau chwarae.
- Carreg y drws.
- Lleol.
- Cymdogaeth
- Cyrchfan.
- Caeau hamdden (chwaraeon) – naturiol ac artiffisial.
- Mannau gemau aml-ddefnydd.
- Mannau chwarae ar gyfer olwynion – parciau ar gyfer beiciau BMX a pharciau sgelfrio.
- Mannau cyfarfod i bobl ifanc.

Dylid asesu lle o ran y canlynol:

- Ei werth o ran chwarae.
- Pellter teithio o gartrefi plant heb unrhyw rwystrau ffisegol sylweddol.
- Maint y ddarpariaeth o ystyried nifer y plant.
- A yw'n hygyrch ac yn addas i blant o wahanol oedrannau a galluoedd; a oes modd ei ddefnyddio yn ystod tywydd sych a thywydd gwlyb.
- Lefelau derbyniol o gyfleoedd i fentro mewn modd buddiol.
- Y defnydd a wneir ohono ar hyn o bryd at ddibenion chwarae.
- Y potensial i gynyddu'r defnydd a wneir ohono at ddibenion chwarae

## Caeau Chwarae

Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod pwysigrwydd caeau chwarae fel manau a ddefnyddir gan y gymuned i gynnal gweithgareddau chwaraeon wedi'u trefnu, ac at ddibenion chwarae a hamdden anffurfiol. Mae Mesur Meysydd Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010<sup>16</sup> yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar ffurf rheoliadau i gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol ynghylch gwaredu tir. Ystyr "Awdurdod Lleol" yn y cyd-destun hwn yw cyngor sir/bwrdeistref sirol, cyngor cymuned ac awdurdod parc cenedlaethol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar reoliadau drafft (a'r canllawiau statudol drafft cysylltiedig) sydd i'w gwneud o dan y Mesur. O dan y rheoliadau drafft, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am yr effaith a gaiff gwaredu cae chwarae ar

<sup>16</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/6/contents>

iechyd a lles y gymuned, gan gyfeirio at strategaethau a chynlluniau allweddol ar gyfer yr ardal (gan gynnwys yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae). Bydd y rheoliadau hefyd yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgynghori ystyrion rhwng yr awdurdod lleol a'r gymuned leol, a sefydliadau chwaraeon a sefydliadau priodol eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, cyn gwneud penderfyniad i waredu maes chwarae.

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y rheoliadau'n dod i rym ddiwedd 2014.

Dylai unrhyw asesiad o'r effaith gydnabod pwysigrwydd caeau chwarae o ran galluogi plant i chwarae, a dylid cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgynghoriadau ar benderfyniadau o'r fath.

## **Mater Ch: Darparu cyfleoedd i chwarae dan oruchwyliaeth**

### **Darparu gwaith chwarae**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried darpariaeth chwarae gan gynnwys:

- Cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau (cofrestredig ac anghofrestredig).
- Meysydd chwarae antur.
- Cyfleoedd chwarae a gefnogir gan weithwyr chwarae peripatetig (ceidwaid chwarae).
- Darpariaeth symudol, megis bysiau chwarae.
- Clybiau a grwpiau ieuencid.
- Sefydliadau sy'n darparu adnoddau ar gyfer y lleoliadau hyn (megis llyfrgelloedd teganau neu siopau sborion).

Dylid asesu'r ddarpariaeth hon o ran i ba raddau y mae'r canlynol yn wir:

- Mae'r ddarpariaeth yn ddigonol i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd
- Mae'r ddarpariaeth yn bodloni'r gofynion rheoliadol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer y lleoliad hwnnw, fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) neu gorff arolygu arall
- Mae'r ddarpariaeth yn gweithio tuag at gyflawni safonau uchel o ran y cyfleoedd chwarae a gynigir i blant, fel y'u datblygwyd gan y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Chwarae (SkillsActive) a'r sector chwarae.

Os yw gwasanaethau gofal plant y tu allan i oriau ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored yn cael eu hasesu eisoes gan yr Awdurdodau Lleol drwy gyfrwng eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu'r lleoliadau hynny hefyd o ran ansawdd y cyfleoedd chwarae y maent yn eu darparu a'u cynnig.

### **Gweithgareddau hamdden strwythuredig**

O dan y Mesur, mae Cyfleoedd Chwarae yn cynnwys gweithgareddau hamdden.

Dymuna Llywodraeth Cymru osgoi dyblygu asesiadau o ddarpariaeth a gwasanaethau a ddarperir o fewn yr amrywiaeth o wasanaethau cymorth ieuencid a meysydd eraill sy'n darparu ar gyfer Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, felly mae angen llai o wybodaeth am y ddarpariaeth hon yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

(Gweler adran 8: Blaenoriaethau o ran asesu cyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden a ddewisir o wirfodd). Dylid darparu datganiad o ddigonolrwydd yn y meysydd hyn gan groesgyfeirio at yr adrannau perthnasol ym mhob polisi/asesiad o ddarpariaeth.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau:

- Mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau'r gwasanaethau a nodir o dan Nod Craidd 4 ar gyfer chwaraeon, hamdden a diwylliant.
- Mae Cynlluniau "Creu Cymru Egniol" lleol yn cynyddu'r cyfleoedd chwarae a'r gweithgareddau hamdden sydd ar gael i blant.
- Mae Cytundebau Partneriaeth Awdurdod Lleol yn helpu i sicrhau bod mwy o gyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden ar gael am ddim.
- Mae'r agenda chwaraeon yn helpu i sicrhau bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant.
- Cyfleoedd chwarae am ddim mewn canolfannau hamdden – nofio am ddim; sesiynau chwarae.
- Mae'r agenda diwylliant a'r celfyddydau yn helpu i sicrhau bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant.
- Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasu.

Fel y nodir yn Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (2007), dylai gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ieuenctid sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hamdden a chymdeithasol, y cyfleoedd chwaraeon, y diwylliant, y gerddoriaeth a'r celfyddydau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

### **Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae**

Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, bydd cyfleoedd i chwarae mewn mannau agored a mannau chwarae awyr agored dynodedig lle nad oes staff (Mater C) yn cael eu darparu am ddim i blant ac unrhyw oedolion sydd gyda hwy. Gellir codi tâl ar blant a'u teuluoedd am gyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth, am ddarpariaeth gwaith chwarae a gweithgareddau hamdden strwythuredig (Mater Ch). Gallai hyn fod ar ffurf cyfraniadau gwirfoddol, tâl mynediad a thalu am weithgareddau neu danysgrifio iddynt. Gallai cludiant i'r cyfleoedd hyn fod yn gost ychwanegol (Mater Dd). Yn amlwg, bydd unrhyw daliadau yn cael effaith o ran a fydd amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ar gael i bob plentyn ac, felly, yn effeithio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth mewn ardal benodol. Dylid sylweddoli y gall hyd yn oed gostau cymharol isel i deuluoedd ar incwm isel sydd â sawl plentyn olygu na all y plant hynny achub ar gyfleoedd chwarae.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos pa gyfleoedd chwarae y bydd yn rhaid talu amdanynt, a chost y cyfleoedd hynny. Dylai ystyried i ba raddau y mae unrhyw daliadau yn effeithio ar ddigonolrwydd y cyfleoedd chwarae i'r canlynol:–

- Plant o deuluoedd incwm isel.
- Plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.
- Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.
- Plant anabl neu blant ag anghenion penodol.



Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae ddangos hefyd i ba raddau y mae Awdurdodau Lleol yn ystyried taliadau ar gyfer y plant hyn a'u teuluoedd a'r camau a gymerir i liniaru'r amgylchiadau hyn gan gynnwys:

- Darparu cyfleoedd chwarae am ddim i blant.
- Peidio â chodi tâl neu godi tâl isel am safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol a ddefnyddir i ddarparu cyfleoedd chwarae.
- Grantiau neu gymorthdaliadau i ddarparwyr chwarae.
- Cymhorthdal ar gyfer costau cludiant i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae.

Bydd modd cael gafael ar wybodaeth am ddarpariaeth chwarae ddi-dâl neu gost isel drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sydd ar gael yn ardal pob awdurdod lleol.

### **Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth**

Wrth gynnal asesiadau ac wrth fynd ati i greu cymunedau lle gall plant chwarae, dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod plant yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau i chwarae; eu bod yn gallu cerdded neu seiclo i fannau agored neu i ddarpariaeth chwarae neu hamdden; eu bod yn gallu ymweld â'u teulu a'u cyfeillion neu fynd i'r ysgol, heb unrhyw berygl o niwed.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ac anafiadau ar y ffyrdd, a datblygu amgylchedd mwy diogel i bawb. Y nod yw creu gwlad fwy diogel – ar gyfer ein plant a phawb yng Nghymru.

Mae gan Awdurdodau Lleol bwerau i gyflwyno terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bo'n briodol – er enghraifft mewn ardaloedd preswyl lle y gallai plant chwarae. Mae nifer y cynlluniau 20 milltir yr awr yng Nghymru wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf yn sgil arian gan Lywodraeth Cymru drwy ein Grant Diogelwch ar y Ffyrdd Lleol a'r rhaglenni Llwybrau Diogel.

I lawer o blant, mae'r palmentydd a'r ffyrdd y tu allan i'w cartrefi nid yn unig ddarpariaeth chwarae, ond hefyd yn fannau yn eu rhinwedd eu hun lle y gallant chwarae. Weithiau, dyma'r unig fan agored cyhoeddus mewn cymuned. Cydnabyddwn hefyd pan fydd plant yn teithio i rywle nad dim ond cerdded neu feicio yno a wnânt. Maent hefyd yn chwarae eu ffordd drwy'r gymuned.

O dan Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru, dyrennir cyllid blynyddol i Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddarparu mwy o wasanaethau bws lleol a gwasanaethau trafndiaeth gymunedol, ac i wella'r amrywiaeth a gynigir. Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau bws lleol yn cael eu darparu'n fasnachol, mae gan Awdurdodau Lleol y pwerau i roi cymhorthdal i wasanaethau sydd, yn eu barn hwy, yn angenrheidiol er mwyn diwallu angen cymdeithasol. Er mwyn gwneud hynny, maent yn defnyddio eu cyllidebau eu hunain ond hefyd y dyraniadau blynyddol a gânt o dan y Cynllun Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried yr holl ffactorau sy'n helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i chwarae neu symud o amgylch eu cymunedau, gan gynnwys:

- Camau i dawelu traffig.
- Strydoedd chwarae/cau'r ffyrdd dros dro.

- Llwybrau cerdded a llwybrau beicio diogel.
- Darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus.
- Mannau a rennir.
- Parcio.
- Oriau agor darpariaeth chwarae.

Dylai'r ffactorau hyn gael eu hasesu o ran:

- Nifer y manau lle ceir terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr mewn ardaloedd preswyl.
- Effeithiolrwydd y terfynau hyn o ran galluogi plant i symud yn ddiogel o amgylch eu cymunedau a chwarae yn yr awyr agored.
- Y potensial i gynyddu nifer y manau lle ceir terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr er mwyn hyrwyddo cyfleoedd chwarae.
- Y llwybrau cerdded a seiclo diogel a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol a'r potensial i ddarparu mwy ohonynt. Dylai hyn gyd-fynd â'r cynigion a gaiff eu nodi yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.<sup>17</sup>
- Cadarnhad bod cynlluniau'r Awdurdod lleol ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus a'i benderfyniadau ynghylch gwariant ar fysiau a gwasanaethau cludiant cymunedol yn adlewyrchu ei asesiad o anghenion plant o ran cyfleoedd i chwarae.
- Prosesau syml ar gyfer trefnu i gau ffyrdd dros dro a sicrhau bod gwybodaeth am y prosesau hynny i'w chael yn hawdd.
- Yr effaith y mae ceir wedi'u parcio yn ei chael ar strydoedd preswyl ac ar y modd y mae plant yn defnyddio lle.
- A oes cyfleoedd chwarae ar gael ar yr adegau y mae plant am gael y cyfleoedd hynny.

## Gwybodaeth; cyhoeddusrwydd; digwyddiadau

Er mwyn i blant a theuluoedd fanteisio ar gyfleoedd chwarae, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau, mae angen iddynt wybod beth sy'n cael ei gynnis yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob Awdurdod Lleol ddatblygu adran amlwg ar chwarae ar ei wefan. Dylai'r adran honno roi gwybodaeth gynhwysfawr am bob cyfle chwarae; am bob man chwarae a man nad yw o reidrwydd wedi'i ddynodi'n fan chwarae, sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae; gweithgareddau; clybiau a digwyddiadau i blant yn ei ardal. Byddai'n ddefnyddiol hefyd darparu gwybodaeth a dolenni perthnasol ar gyfer rhieni, i'w hannog i gefnogi a chymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae yn y gymuned ehangach. Gallai'r wybodaeth hon hefyd gael ei darparu drwy ddulliau eraill yr Awdurdod Lleol o roi cyhoeddusrwydd i'w waith.

Bydd digwyddiadau sy'n hyrwyddo chwarae ac yn annog pobl i dderbyn gweithgareddau chwarae mewn manau cymunedol fel mater o drefn yn helpu i sicrhau bod chwarae'n cael ei dderbyn ar adegau eraill. Hefyd, drwy roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a darparu gwybodaeth gadarnhaol a straeon newyddion, bydd modd datblygu agweddau cadarnhaol yn y gymuned at blant a'u hawl i chwarae.

<sup>17</sup> <http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/walkingcycling/activetravelact/?skip=1&lang=cy>

Gallai'r Awdurdod Lleol ddefnyddio arwyddion mewn manau yn y gymuned lle mae plant yn cael chwarae, er mwyn rhoi neges glir i blant ac oedolion bod croeso i blant chwarae yn y man hwnnw. Gallai'r arwyddion hynny fod ar ffurf offer chwarae neu'n ffordd fwy symbolaidd o ddangos bod ganddynt yr hawl i chwarae yno. Dylai fod yn glir nad dim ond yn y manau hyn y caiff plant chwarae.

Dylai'r asesiad ystyried i ba raddau y mae'r canlynol yn wir:

- Mae gwybodaeth am fannau chwarae; am weithgareddau chwarae a hamdden; clybiau a digwyddiadau i blant ar gael yn hawdd drwy wefan yr Awdurdod Lleol a ffynonellau eraill.
- Mae gwybodaeth ar gael am hygyrchedd y ddarpariaeth, ynghyd ag enw cyswllt ar gyfer cymorth os bydd angen.
- Mae gwybodaeth ar gael am ddigwyddiadau i'r teulu cyfan.
- Mae gwybodaeth ar gael am sut y gall rhieni; llywodraethwyr ysgolion; grwpiau cymunedol a gwirfoddolwr helpu i ddarparu cyfleoedd chwarae.
- Mae'r Awdurdod Lleol, drwy ei ddeunyddiau hyrwyddo, yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at blant a'u presenoldeb yn yr awyr agored yn chwarae yn eu cymunedau.

Sylwer: mae gofyniad cyfreithiol ar Awdurdodau Lleol bellach o dan adran 11(4) o'r Mesur i gyhoeddi a diweddarau gwybodaeth am gyfleoedd chwarae.

## **Mater E: Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae**

Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid ymgymryd â'r swyddogaethau rheoli a chyflawni, neu sicrhau'r swyddogaethau rheoli a chyflawni, sy'n angenrheidiol er mwyn darparu cyfleoedd chwarae digonol. Bydd hyn yn cynnwys cydgysylltu'r asesiad gofynnol o feysydd polisi trawsbynciol; integreiddio canlyniadau'r asesiad â'r cynllun strategol sengl a chyflawni'r agenda chwarae drwy weithlu o faint digonol sy'n meddu ar adnoddau a chymwysterau digonol.

Dylai'r gweithlu chwarae feddu ar y cymwysterau sy'n ofynnol o dan Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleoliadau a Reoleiddir, y cymwysterau sylfaenol a bennir gan SkillsActive Cymru, y Cyngor Sgiliau Sector mewn perthynas â Chwarae neu dylai gael cymorth i ennill y cymwysterau hynny a'r gofynion eraill a bennir gan gyrff arolygu a rheoleiddio cysylltiedig eraill gan gynnwys AGGCC. Dylai'r Awdurdod Lleol gefnogi'r broses o ddatblygu gweithlu chwarae, gan gynnwys a hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill o fewn y gweithlu plant; gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned, yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y sector.

Dylai'r asesiad ddarparu gwybodaeth am strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda Chwarae a'r gweithlu chwarae.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau:

- Mae strwythur a maint y gweithlu chwarae (polisi a chyflawni) yn gallu cynnig cyfleoedd chwarae digonol i blant yn yr ardal.
- Mae lefel cymwysterau'r gweithlu chwarae yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer eu rolau.
- Mae hyfforddiant ar gael er mwyn i'r gweithlu chwarae ennill y cymwysterau angenrheidiol.

- Mae hyfforddiant ar gael er mwyn i wirfoddolwyr a rhieni ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ym maes gwaith chwarae.
- Mae hyfforddiant ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r gweithlu plant ac sy'n gysylltiedig â chwarae.
- Mae sesiynau hyfforddiant neu ymwybyddiaeth ar gael i weithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae, er enghraifft, cynllunwyr trefi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hon yn agenda drawsbynciol a bod llawer o weithwyr proffesiynol nad yw eu prif ddiben yn y gwaith o reidrwydd yn ymwneud â chefnogi cyfleoedd chwarae i blant, yn cyflawni rolau sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar allu plant i fanteisio ar gyfleoedd chwarae. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau y mae hyfforddiant ar gael i alluogi'r grŵp eang hwn i feithrin ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o sut y gall helpu i sicrhau bod cyfleoedd chwarae digonol ar gael i blant.

Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid, wrthi'n datblygu Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a'r Gweithlu. Bydd y Cynllun hwnnw'n helpu i sicrhau bod gennym weithlu chwarae a fydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac a fydd yn meddu ar y cymwysterau priodol.

## **Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys**

Fel y nodir yn Adran 5, dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n eang am farn plant; eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill am ddarpariaeth hamdden a chwarae. Dylai hefyd geisio cynnwys y gymuned gyfan er mwyn creu cymunedau sy'n croesawu cyfleoedd chwarae.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau y mae'r grwpiau canlynol yn cymryd rhan mewn mentrau i wella cyfleoedd chwarae:

- Grwpiau ieuenctid.
- Cyngorau ysgolion.
- Cyrff llywodraethu ysgolion.
- Grwpiau cymunedol.
- Unrhyw grwpiau eraill sy'n berthnasol.

Gallai mentrau o'r fath gynnwys:

- Trefnu bod man chwarae ar gael a'i fod yn addas.
- Trefnu gweithgareddau chwarae.
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at blant a chwarae.

Wrth i gyfleoedd chwarae digonol gael eu sicrhau drwy'r gwaith blynyddol o ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae ac yna drwy roi'r Cynlluniau hynny ar waith, dylid ymgynghori â'r plant a'r teuluoedd yr effeithir arnynt gan y camau hynny, gan ofyn iddynt fynegi barn am yr hyn a fydd wedi'i gyflawni, y mantesion a fydd wedi deillio o gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, a chymryd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. Y disgwyl yw y bydd yr Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r dulliau sydd ganddynt eisoes o sicrhau cyfraniad plant ac ymgynghori â thelueodd.

## Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir i blant a chreu cymdeithas sy'n croesawu plant ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden y maent yn eu dewis o'u gwirfodd, mae angen polisiâu a chamau gweithredu ar draws sawl maes polisi er mwyn cyfrannu at y diben hwn.

### **Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried pob un o'i agendâu polisi o ran eu heffaith bosibl ar blant sy'n chwarae a chynnwys targedau a chamau gweithredu i wella cyfleoedd chwarae i blant ym mhob strategaeth a pholisi o'r fath.**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried i ba raddau y mae'r meysydd polisi isod yn ystyried cyfleoedd chwarae i blant ac yn cynnwys camau i'w gwella. Dylai hyn hefyd gwmpasu unrhyw un neu rai o agendâu eraill yr Awdurdod Lleol sy'n effeithio ar blant. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos bod yr awdurdod wedi ystyried y meysydd polisi hynny naill ai drwy ddarparu gwybodaeth gysylltiedig neu drwy groesgyfeirio at y manylion am chwarae yn y cynllun cysylltiedig.

Wrth fynd ati i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, rhaid i'r Awdurdod Lleol roi ystyriaeth lawn i'w Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i'w Gynllun Gweithredu Chwarae, gan ddangos pa gamau y mae'n eu cymryd bob blwyddyn i wella cyfleoedd chwarae ym mhob un o'r meysydd polisi hyn. Fel y nodir o dan adran 4.1, drwy'r Grŵp Monitro Chwarae y dylai pob maes polisi a maes cyflawni adrodd ar y cynnydd a fydd wedi'i wneud o ran cymryd y camau a chyrraedd y targedau a amlinellir yn y cynllun. Drwy'r Grŵp hwnnw hefyd y dylid sicrhau bod yr holl feysydd polisi'n cydweithio yn hyn o beth. Fel y nodir yn adran 4.3, dylai'r Awdurdod Lleol edrych ar y cyllidebau ar gyfer y meysydd polisi isod er mwyn gweld sut y gellir eu defnyddio i gyflawni'r camau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Chwarae er mwyn gwella cyfleoedd chwarae yn y maes polisi hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth am gyllid Llywodraeth Cymru ac am ei meysydd rhaglenni i'w gweld ar ei gwefan.

### **Meysydd polisi i'w hystyried yn yr asesiad:**

#### **Addysg/Ysgolion**

Mae ysgolion yn rhoi cyfle pwysig i blant chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ac am gyfnodau cyn ac ar ôl eu gwersi. Gallant hefyd gynnig lle gwerthfawr i blant chwarae dros y penwythnos ac yn ystod y gwyliau os yw trefniadau'r ysgol yn caniatáu hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod yr Awdurdodau Lleol yn cynghori ysgolion i ddarparu mannau chwarae o ansawdd uchel a digon o amser i blant chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ac i roi ystyriaeth lawn i agor y ddarpariaeth honno y tu allan i oriau dysgu.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y darperir amgylchedd chwarae diddorol i blant ar gyfer egwyliau yn ystod y diwrnod ysgol.
- i ba raddau y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae y tu allan i amser ysgol, gan gynnwys cyn yr ysgol, gyda'r nos; dros y penwythnos ac yn ystod gwyliau; yn ogystal â mynediad agored i diroedd ysgolion a defnyddio'r safleoedd ar gyfer gweithgareddau.
- i ba raddau y mae ysgolion yn annog plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol.
- i ba raddau y mae plant yn cael egwyliau chwarae yn y bore, amser cinio ac yn y prynhawn.

## Cynllunio Gwlad a Thref

Mae cynllunio gwlad a thref yn bwysig o ran darparu mannau chwarae i blant. Dylid mynd ati, wrth baratoi'r cynllun datblygu lleol, i asesu'r mannau agored sydd ar gael. Dylid asesu a yw strydoedd a mannau agored yn addas at ddibenion chwarae, a dylid mapio darpariaeth a chyfleoedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol. Dylai'r cynllun datblygu ddangos sut y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu darparu mannau chwarae mewn ardaloedd preswyl, mewn cymdogaethau, a chanol trefi neu ddinasoedd os yw'r asesiad wedi dangos nad yw'r ddarpariaeth yn ddigonol.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y darperir cyfleoedd i blant chwarae wrth fynd ati i gynllunio'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys tai a defnydd o fannau cyhoeddus a mannau agored.
- i ba raddau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion plant o bob oed o ran chwarae yn yr awyr agored.

## Traffig a thrafnidiaeth

Mae rheoli traffig a gwasanaethau trafndiaeth yn bwysig er mwyn i blant fedru cerdded, seiclo neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd y mannau lle maent yn chwarae neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y gall plant chwarae mewn mannau cymunedol ac a oes llwybrau diogel lle gallant gerdded, seiclo neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus er mwyn manteisio ar gyfleoedd chwarae ac ar ddarpariaeth hamdden ac er mwyn cyrraedd yr ysgol.
- i ba raddau y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd a ffyrdd lleol a llwybrau cerdded a beicio o ran cynnig cyfleoedd chwarae i blant o bob oed a gallu.
- i ba raddau y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn nodi ffyrdd o asesu anghenion pob grŵp, gan gynnwys y rheini sydd ar y cyrion yn aml.

## Iechyd a Lles

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod chwarae egniol yn gwneud cyfraniad mawr at iechyd a lles plant. Mae'n cyfrannu at eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl ac yn ffordd o leihau gordewdra mewn plant. Dylai Awdurdodau Lleol sicrau bod chwarae'n cael ystyriaeth lawn wrth iddynt darparu ar gyfer cymuned iach. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r cynlluniau a'r agenda sydd gan yr Awdurdod Lleol i hyrwyddo iechyd a lles yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden a ddewisir o wirfodd i iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd cymdeithasol plant a'u teuluoedd.
- i ba raddau y mae cynlluniau o'r fath yn gwella cyfleoedd chwarae i blant er mwyn hyrwyddo'u hiechyd a'u lles.

## Tlodi Plant

Dangoswyd bod chwarae'n fodd i liniaru'r effeithiau negyddol y mae tlodi'n eu cael ar fywydau plant drwy roi mwynhad iddynt a thrwy helpu i'w gwneud yn fwy abl i ymdopi â sefyllfaoedd anodd. Gall chwarae fod yn fodd hefyd i leihau'r anghydraddoldebau rhwng y plant hynny sy'n byw mewn teuluoedd sy'n gallu fforddio darpariaeth hamdden gostus a'r rheini nad ydynt yn gallu fforddio darpariaeth o'r fath, gan leihau tlodi o ran profiadau. Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r agenda a'r cynlluniau sydd gan yr Awdurdod Lleol i drechu tlodi yn cydnabod y potensial sydd gan gyfleoedd chwarae i wella lles meddyliol plant mewn sefyllfaoedd anodd a'u gwneud yn fwy abl i ymdopi â nhw.
- i ba raddau y mae cyfleoedd chwarae ar gael i bob plentyn ni waeth beth fo incwm y teulu.

## Polisïau a mentrau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant a Theuluoedd

Mae chwarae'n hanfodol i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar ac yn hollbwysig i'w hiechyd, eu dysgu a'u datblygiad. Mae 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant' Llywodraeth Cymru 2013 yn cydnabod pa mor bwysig yw chwarae i bob plentyn rhwng 0 a 7 oed. Wrth i'r Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant y blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd, dylai gydnabod pa mor bwysig yw cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i'w bywydau.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd chwarae yn y maes polisi hwn, a'r fantais y gall amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ei chynnig i rieni a theuluoedd.
- i ba raddau y mae cynlluniau a gwasanaethau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, rhaglen Dechrau'n Deg a chynlluniau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae sy'n cyfoethogi bywydau plant.

## Polisïau a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gweithgareddau a rhaglenni sy'n pontio'r cenedlaethau yn gallu bod o fudd i blant ac i bobl hŷn. Gall darpariaeth chwarae helpu i hyrwyddo'r cysylltiadau hyn rhwng y cenedlaethau.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi gwerth ar waith i bontio'r cenedlaethau wrth ddarparu cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl mewn grwpiau oedran hŷn.
- i ba raddau y mae polisïau'n caniatáu i bobl o bob oed – yn blant, yn bobl ifanc yn eu harddegau, ac yn oedolion i
  - ddefnyddio'r un man ar wahân ar adegau gwahanol o'r dydd.
  - rhannu'r un man ar yr un pryd.

## Datblygu Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwaith datblygu cymunedol yn werthfawr er mwyn creu cymdeithas deg a chyfartal lle mae anghenion y gymuned yn cael eu deall a'u diwallu. Mae cyfleoedd i blant chwarae yn rhan bwysig o ddiwallu anghenion cymunedau.

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod hawliau plant i chwarae yn eu cymunedau.
- i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi ac yn cynnig cyfleoedd chwarae i'w plant.
- i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cymunedau sy'n gwerthfawrogi'r manteision y mae cyfleoedd chwarae yn eu cynnig i blant a'r gymuned gyfan, a hefyd eu manteision o ran hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

## Diogelwch Cymunedol

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod hawliau plant i chwarae yn eu cymunedau ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer gwneud hynny.
- i ba raddau y mae'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn gwneud datganiad clir sy'n cydnabod bod gan blant hawl i chwarae yn eu cymunedau.
- i ba raddau y mae'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys camau i ddarparu amgylchedd diogel i blant chwarae yn eu cymunedau.

## Iechyd a Diogelwch

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae asesu:

- i ba raddau y mae polisiâu a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Lleol yn croesawu egwyddor Asesiadau Manteision a Risg, sydd i'w gweld yn Natganiad Lefel Uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli risgiau wrth chwarae.





## 11. Datblygiadau yn y dyfodol

Daeth y ddyletswydd lawn sydd ar Awdurdodau Lleol o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i rym ar 1 Gorffennaf 2014. Mae'r manylion ynglŷn ag asesu a oes cyfleoedd chwarae digonol ai peidio, ac yna sicrhau'r cyfleoedd hynny, i'w gweld yn y Canllawiau Statudol hyn. Mae'r manylion hynny'n cynnwys sut i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae; sut i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae, a'u rhoi ar waith; a sut y dylid monitro prosesau a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru.

Bydd astudiaethau achos ac enghreifftiau o'r modd y mae Awdurdodau Lleol yn mynd ati i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu â Chydgysylltwyr Chwarae yr Awdurdodau Lleol a chynrychiolwyr eraill i drafod y gwaith o ddatblygu a diweddarau'r deunyddiau hyn, i fonitro cynnydd yn hyn o beth, ac i drafod mentrau eraill lle gellir cydweithio a gweithio law yn llaw â chyrrff eraill.

Bydd deunyddiau eraill i helpu Awdurdodau Lleol ac i hyrwyddo'r agenda chwarae i'w gweld o bryd i'w gilydd ar wefan Llywodraeth Cymru.



## Atodiad A

### Polisiâu a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

#### POLISIÂU

##### **Polisi Chwarae (2002)**

Ym mis Hydref 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Pholisi Chwarae, a oedd yn seiliedig ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Lluniwyd y Polisi Chwarae i ddangos y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar werth chwarae yn ystod plentyndod a phwysigrwydd plant yn ein cymdeithas. Nododd y canlynol:

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i sicrhau bod cyfle i blant fod mewn amgylcheddau llawn her, sy'n eu cyfoethogi a'u hysgogi ond nad ydynt yn eu peryglu mewn ffordd amhriodol, gan roi cyfle iddynt felly ddod i wybod mwy amdanynt eu hunain a'r byd drwy chwarae'n rhydd o'u gwirfodd.

Nododd yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i blant, ac i bolisiâu a darpariaethau sy'n diwallu eu hanghenion. Roedd y Polisi Chwarae yn ddatganiad eang o egwyddorion yn hytrach na'n ddisgrifiad manwl o sut y dylid rhoi'r ddarpariaeth ar waith.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/3291781/?skip=1&lang=cy>

##### **Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (2003)**

O fis Ebrill 2003 ymlaen, daeth yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi a gweithredu strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar gyfer eu hardal lleol.

Rhodddwyd dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi ac i weithredu Strategaeth Leol. Wrth wneud hynny, mae gofyn iddynt gydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid lleol. Dyma'r partneriaid a enwir yn benodol:

- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)
- Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau)
- Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CGSau)
- Unrhyw gorff gwirfoddol, busnes neu breifat arall sydd â diddordeb mewn iechyd a lles

Bydd amrywiaeth eang o sefydliadau eraill yn dod o dan y pennawd 'unrhyw gorff gwirfoddol, busnes neu breifat arall', felly mater i'r partneriaid bendefynu arno'n lleol yw pwy fydd yn y grŵp rhanddeiliaid ehangach hwnnw.

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/strategies/?skip=1&lang=cy>

##### **Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (2004)**

Roedd y ddogfen hon yn nodi saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Gwnaeth Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae gyfraniad sylweddol at gyflawni nod craidd 4: sef y dylai pob plentyn a pherson ifanc allu fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/rightstoaction/?skip=1&lang=cy>

## **Cymru: Gwlad Well (2005)**

Mae'r ddogfen hon yn pennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru, sef gwlad sy'n gwerthfawrogi ei phlant a'i phobl ifanc. Ymhlith ei gwerthoedd craidd yr oedd y datganiad y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned, y dylid gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac ystyried eu hanghenion ym mhob rhan o'r broses llunio polisi.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/wales-a-better-country?skip=1&lang=cy>

## **Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae (2006)**

Er mwyn cryfhau ei hymrwymiad i'r Polisi Chwarae, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i lunio cynllun cyflawni, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2006. Roedd y cynllun hwnnw'n cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfleoedd chwarae ac yn nodi'r cysylltiadau rhwng yr ymrwymiad hwnnw a pholisïau a chynlluniau strategol eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac yn amlinellu hefyd sut yr oedd yn cyfrannu atynt. Roedd yn nodi'r camau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, gan gynnwys:

- Creu dyletswydd i gydweithredu i fynd i'r afael ag anghenion plant o ran chwarae, ni waeth beth fo'r materion o ran iaith, hil, rhyw neu wahanol lefelau o allu.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys plant, i lunio Safonau ar gyfer ystod eang o ddarpariaethau chwarae o ansawdd uchel.
- Bwrw golwg dros ei pholisïau ei hun o ran y modd y maent yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae, gan gynnwys cynllunio a thrafnidiaeth, er mwyn ystyried a hyrwyddo cyfleoedd chwarae.
- Darparu gwybodaeth a deunydd hyfforddi i ysgolion a rhieni ar hwyluso cyfleoedd chwarae.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu Chwarae.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/playpolicy?skip=1&lang=cy>

## **Creu Cymru Egniol (2009)**

- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd creu amgylchedd sy'n ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl ddewis bod yn fwy egniol yn gorfforol; mae'n cydnabod hefyd fod chwarae gweithredol yn cyfrannu at iechyd corfforol a ffitrwydd plant, yn ystod eu plentyndod ac yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae Creu Cymru Egniol yn cynnwys adran ar y gallu i fanteisio ar gyfleoedd chwarae o ansawdd ac ar goetiroedd a manau gwyrdd.

Yn Creu Cymru Egniol (2009), mae Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth lle y byddai pob plentyn yn chwarae yn yr awyr agored yn aml mewn amgylcheddau diogel ac y byddai pobl yn defnyddio eu hamgylchedd lleol at ddibenion hamdden egniol. Un o'r camau gweithredu a nodwyd yn y ddogfen oedd gwella mynediad i goetiroedd a manau gwyrdd, yn arbennig i'r rheini ger cymunedau difreintiedig. Er mwyn cyflawni'r cam hwn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cydnabyddwn fod coetiroedd a manau gwyrdd yn bwysig o ran galluogi plant i chwarae a meithrin dealltwriaeth o'r amgylchedd, a pharch tuag ato. Dylai'r asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae gynnwys asesiad o allu plant a phobl ifanc i fanteisio ar goetiroedd a manau gwyrdd fel cyfleoedd i chwarae, yn arbennig mewn cymunedau difreintiedig, a gweithio gyda phartneriaid perthnasol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad a chael gwared ar beryglon.

<http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/sportandactiver recreation/active/?skip=1&lang=cy>

## **Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Theithwyr yng Nghymru (2009)**

Bwriedir i'r Canllaw Arfer Da hwn fod yn ganllaw i awdurdodau lleol ar ddarparu gwasanaethau priodol am gost resymol i Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd preswyl yng Nghymru. Mae'n cynnwys cyngor ac enghreifftiau o arferion da, a dylid ei ddefnyddio i helpu awdurdodau i wneud penderfyniadau ar sail eu hamgylchiadau lleol penodol. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru orfodi'r un atebion ar bawb oherwydd gall sefyllfaoedd amrywio'n fawr ar draws rhanbarthau yng Nghymru.

<http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/communitycohesion/publications/goodpractice/?skip=1&lang=cy>

## **Y Strategaeth Tlodi Plant (2011)**

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant, sy'n nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant, yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod tlodi'n cael llai o effaith niweidiol ar blant. Mae'n pwysleisio bod gan blant yr hawl i chwarae ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod chwarae'n elfen annatod o ddatblygiad plant ac y gall fod yn ffactor diogelu cryf ym mywydau plant. Gall, i raddau, ddiogelu plant rhag yr agweddau negyddol ar dlodi a'u galluogi i ddatblygu eu hadnoddau mewnol er mwyn meithrin y gallu i ymdopi ag anawsterau ac ansicrwydd yn eu cartrefi a rhannau eraill o'u bywydau.

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/child-poverty/?skip=1&lang=cy>

## **Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr (2012)**

Nod 'Teithio at Ddyfodol Gwell' yw cyflawni ein hymrwymiad i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr; sicrhau cyfle cyfartal i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ac ystyried ffyrdd newydd o alluogi cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i gael gafael ar adnoddau nad ydynt bob amser ar gael iddynt drwy sicrhau bod ein gwasanaethau yn ddigon hyblyg i ymateb i'w hanghenion.

<http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/communitycohesion/gypsytravellers/?skip=1&lang=cy>

## **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid : Fframwaith Adfywio Newydd (2013)**

Cynhyrchwyd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn dilyn adolygiad o'r dullau o adfywio ardaloedd yng Nghymru a'r tu hwnt ac yn dilyn ymgynghoriad eang â phartneriaid.

Mae holl aelodau'r Cabinet yn ei gefnogi ac mae'n hyrwyddo dull helaeth ei dystiolaeth sy'n cyfuno cymorth i bobl a lleoedd. Mae hefyd yn annog y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i weithio mewn partneriaeth.

Bwriad y fframwaith yw cael y gwerth gorau posibl o bob punt o'r cyllid prif ffrwd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ar feysydd fel iechyd ac addysg.

<http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/regeneration/vibrant-and-viable-places/?skip=1&lang=cy>

## **Y Strategaeth Diogelwch Ffyrdd (2013)**

Mae pobl yn cael eu hanafu bob dydd ar ffyrdd Cymru. Gall damweiniau ffordd gael effaith ofnadwy ar y dioddefwr a'i deulu ond mae modd atal bron pob un ohonynt rhag digwydd.

<http://wales.gov.uk/topics/transport/roads/safety/?skip=1&lang=cy>

## **Y Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant a Datblygu'r Gweithlu Chwarae (2013)**

Mae 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant' yn nodi'r hyn sydd gan Lywodraeth Cymru mewn golwg ar gyfer y 10 mlynedd nesaf o ran datblygu a gweithredu polisiâu ar gyfer plant o'r cyfnod cyn-geini hyd at saith mlwydd oed.

Mae rhan o'r ddogfen yn ymdrin â datblygu cynllun gweithlu 10 mlynedd ar gyfer ymarferwyr ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae. Y nod yw rhoi proffil uwch i'r sectorau hynny a gwella sgiliau'r gweithlu. Mae cynnig am Gyllid Ewropeaidd yn cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi'r rhaglen hon.

Bwriad y cynllun strategol hwn yw sicrhau bod gweithwyr chwarae yng Nghymru yn gallu cynnig cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel sy'n helpu plant i ddatblygu.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/building-a-brighter-future-early-years-and-childcare-plan/?skip=1&lang=cy>

## **Polisi Cynllunio Cymru (2014)**

Eir ati yn y ddogfen Polisi Cynllunio Cymru (PPW) i amlinellu polisiâu Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (a restrir yn yr Atodiad). Mae cyngor ar weithdrefnau'n cael ei roi mewn cylchlythyrau ac mewn llythyrau egluro polisi. Mae PPW yn troi'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn weithredu drwy sicrhau bod y system gynllunio'n chwarae rôl briodol o ran creu dyfodol cynaliadwy.

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/manualforstreets/?skip=1&lang=cy>

## **DEDDFWRIAETH**

### **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (a ddaeth i rym yn y DU ym 1992)**

Mae'r hawl i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden wedi ei hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 31 o'r Confensiwn yn nodi, "Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a chael hamdden i chwarae ac ymroi i weithgareddau adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gymryd rhan ddirwystr mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau".

<http://www.unicef.org.uk/UNICEFs-Work/Our-mission/UN-Convention/>

### **Deddf Plant (2004)**

Rhoddodd y Ddeddf hon ddyletswydd ar holl Awdurdodau Lleol Cymru i gydweithredu â'i giydd ac â'u partneriaid (fel y nodir yn adran 25 o'r Ddeddf) er mwyn gwneud trefniadau i hybu lles plant. Nododd mai un o ddibenion y cydweithredu hwn oedd gwella lles plant mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a hamdden ac yn sgil hynny, mewn perthynas â chwarae.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/contents>

### **Deddf Gofal Plant (2006)**

Gosododd y Ddeddf Gofal Plant ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu'r ddarpariaeth gofal plant yn ei ardal. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi gwybodaeth am wasanaethau neu gyfleusterau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfleusterau chwarae, chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrannu at yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/contents>

## **Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (2007)**

Darparodd Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (2007) Reoliadau a Chanllawiau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Mae Nod Craidd 4 yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol ar gael i blant.

Mae Adran (7.3) yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gynllunio gyda'u partneriaid i ddarparu neu sicrhau cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Dylai gwasanaethau Cymorth Ieuenctid sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hamdden a chymdeithasol, y chwaraeon, y gweithgareddau diwylliannol, cerddorol a chelfyddydol y mae ganddynt yr hawl iddynt.

Mae hyn yn cynnwys:

- Strategaethau chwarae, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer chwarae antur dan oruchwyliaeth staff.
- Cyfleoedd hamdden a chwaraeon.
- Gofal plant y tu allan i oriau ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau.
- Camau i hyrwyddo gweithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?skip=1&lang=cy>

## **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011)**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynnig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) newydd a oedd yn gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Derbyniwyd y Mesur yn unfrydol a chafodd Gydsyniad Brenhinol yn 2011. Cred Llywodraeth Cymru y bydd y Mesur newydd yn ffordd effeithiol o sicrhau y bydd, wrth wneud ei gwaith, yn rhoi mwy o bwyslais ar helpu plant yng Nghymru i arfer yr hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fel cam tuag at sicrhau eu lles. Bydd y pwyslais cynyddol hwn yn gymwys i'r holl Erthyglau, gan gynnwys Erthygl 31.1 sy'n ymwneud â hawl plentyn i chwarae.

Yn ei Sylwadau i Gloi yn 2008, nododd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylai'r DU wneud y canlynol:-

96. Gwneud mwy i sicrhau y gall pob plentyn fwynhau ei hawl i orffwys a chwarae, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol. Dylai'r gweithgareddau hyn fod yn briodol ar gyfer pob grŵp oed (yn amrywio o blant bach i bobl ifanc).

97. Gofalu bod pob maes chwarae o ansawdd da ac yn hygyrch i bob plentyn gan gynnwys plant anabl.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents>

## **Cydamcanu – Cydymdrechu (2012)**

Mae'r canllawiau statudol 'Cydamcanu – Cydymdrechu' yn amlinellu'r rôl sydd gan lywodraeth leol a'i phartneriaid i'w chwarae, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, er mwyn helpu i ddod ag arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i gynllunio, i weithio, i gyflawni, ac i wella. Roedd disgwyl iddynt baratoi'r cynlluniau cyntaf erbyn mis Ebrill 2013. Disgwylir i bob ardal baratoi cynllun integredig sengl, a fydd yn seiliedig ar un asesiad o anghenion ac a fydd yn eiddo i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Bydd yn seiliedig ar yr holl gynlluniau statudol sydd eisoes yn eu lle. Dylai'r cynllun ymdrin â'r holl ganlyniadau ar gyfer yr ardal, a chyflawni dyletswyddau

sy'n deillio o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Plant 2004 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Dylai'r Aseiad Lleol o Ddigonolrwydd Chwarae gyfrannu at yr aseiad cyffredinol o anghenion a fydd yn sail i'r cynllun sengl. Bydd y dyletswyddau cyfreithiol sydd ar bartneriaid lleol o ran chwarae yn parhau.

<http://wales.gov.uk/topics/improving-services/publication-events/publications/sharedpurpdel/?skip=1&lang=cy>

### **Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)**

O dan y Ddeddf hon, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fynd ati'n barhaus i wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac i baratoi mapiau sy'n nodi llwybrau sydd ar gael iddynt eu defnyddio ar hyn o bryd ac a fydd ar gael yn y dyfodol. Mae'n ofynnol iddynt hefyd, wrth fynd ati i ddylunio cynlluniau ffordd newydd (gan gynnwys cynlluniau i wella ffyrdd), ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr.

<http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/active-travel-act/?skip=1&lang=cy>

### **Cyllid**

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ffrydiau cyllido a allai fod ar gael i'r Awdurdodau Lleol er mwyn darparu rhagor o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar y rhaglen gyllido, a hynny er mwyn sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen o dan eu portffolios er mwyn gwireddu'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu a diwallu anghenion pobl Cymru. Mae'n bosibl y byddai cynigion i ddarparu rhagor o gyfleoedd chwarae yn gymwys i gael cyllid o dan y rhaglenni hynny, ond byddai angen iddynt gydymffurfio â'r meini prawf cyllido a bod yn faes lle mae'r Awdurdod Lleol hwnnw wedi nodi bod angen yn lleol.



## Atodiad B

### Rhestr Termau

- **Darpariaeth i blant chwarae:** Mae darpariaeth chwarae yn cynnig man, mewn amryw o leoliadau dan oruchwyliaeth a heb eu goruchwyllo, lle y gall plant ddyfeisio ac ymestyn eu chwarae eu hunain.
- **Mannau agored:** Tir a osodir ac a ddefnyddir gan y cyhoedd at ddibenion hamdden neu sydd o werth i'r cyhoedd. Gall manau agored fod mor amrywiol â manau amwynder anffurfiol, manau eistedd, parcdir cyhoeddus, ardaloedd wedi'u tirlunio, manau agored megis ardaloedd o goed ac ardaloedd cysgodol. Mae Teipoleg o Fannau Agored wedi'i gynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored.
- **Mannau chwarae dynodedig:** Mannau a ddynodwyd yn benodol er mwyn i blant gael chwarae, a dyna yw eu prif swyddogaeth
  - **Ar garreg y drws:** manau chwarae y gellir eu gweld o gartref, lle mae plant, yn enwedig plant ifanc, yn gallu chwarae a bod oedolion y maent yn eu hadnabod yn gallu cadw llygad arnynt.
  - **Lleol:** Mannau mwy o faint y gall plant sy'n dechrau teithio ar eu pen eu hunain a chyda ffrindiau eu cyrraedd yn ddiogel, heb i oedolion eu tywys, ac y gall oedolion â phlant bach gerdded iddynt yn hawdd.
  - **Cymdogaeth:** Man neu gyfleuster mwy o faint y gall plant a phobl ifanc, sy'n gyfarwydd â theithio pellteroedd hwy ar eu pennau'u hunain, ei gyrraedd yn ddiogel a threulio amser yn chwarae ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden anffurfiol gyda'u cymheiriaid a chael ystod ehangach o brofiadau chwarae.
  - **Mannau lle y gall plant chwarae neu fan cyhoeddus a rennir:** Ardal lle y gall plant chwarae nad yw wedi'i dynodi'n benodol at ddibenion chwarae ac nad chwarae yw ei phrif swyddogaeth neu eu hunig swyddogaeth.
  - **Mannau chwarae cynhwysol:** Darpariaeth chwarae sy'n hygyrch ac yn groesawgar i blant anabl a phlant nad ydynt yn anabl.
  - **Ardaloedd chwarae cyrchfan:** Mannau chwarae o fewn safle allweddol, fel parc. Eu nod yw denu teuluoedd a grwpiau tebyg am gyfnodau hwy ac maent yn dueddol o fod o'r un faint neu'n fwy na safleoedd yn y gymdogaeth.
  - **Ardaloedd gemau aml-ddefnydd:** Ardal gaeedig, sy'n defnyddio glaswellt synthetig neu arwyneb caled, lle y gellir chwarae chwaraeon yn ffurfiol neu'n anffurfiol.
  - **Mannau cyfarfod i bobl ifanc:** Ardaloedd a ddynodir i blant lleol gymdeithasu.
  - **Clybiau Gofal Plant y tu allan i Oriau Ysgol:** Mae'r rhain yn darparu gofal plant a chyfleoedd chwarae cadarnhaol i blant ysgol rhwng 3 ac 16 oed yn union cyn a/neu ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Sesiynau a hwylusir gan Weithwyr Chwarae Cymwys. Caiff clybiau eu rhedeg mewn canolfannau cymunedol megis mewn ysgolion, canolfannau cymunedol, neuaddau eglwys a hefyd o fewn meithrinfeydd dydd. Mae clybiau gofal plant yn cael eu cofrestru gan AGGCC oni bai mai plant dros 7 oed yn unig y gofelir amdanynt neu lle na ddarperir gofal am fwy na dwy awr y dydd e.e. clwb brechwast a gaiff ei redeg am awr cyn yr ysgol bob bore. Mae clybiau gofal plant yn galluogi rhieni/gofalwyr i ddechrau gweithio, hyfforddiant neu addysg ac yn darparu gofal seibiant i deuluoedd sy'n agored i niwed. O'r herwydd, eu nod yw bod yn gynaliadwy, gan godi ffioedd y gall y gymuned leol eu fforddio.
  - **Parciau olwynion/mannau chwarae ar olwynion:** Mannau ar gyfer gweithgareddau ar olwynion megis sgleffrfryddio, llafnrollo a beicio BMX.



- **Sesiynau chwarae mynediad agored wedi’u staffio:** Gall darpariaeth chwarae Mynediad Agored fod yn ddarpariaeth barhaus neu fyrdymor, a leolir mewn amryw o leoliadau ag adeiladau neu hebddynt. Er bod y term Mynediad Agored yn gymwys i ddarpariaeth gofrestrdedig i blant o dan 8 oed, mae darpariaeth o’r fath fel arfer yn darparu ar gyfer ystod eang o blant, gan gynnwys plant 8 oed a throsodd. Ni chaiff darpariaeth mynediad agored i blant 8 oed a throsodd ei rheoleiddio. Diben y ddarpariaeth yw cynnig cyfleoedd chwarae wedi’u staffio i blant yn absenoldeb eu rhieni. Ni chyfyngir ar allu’r plant i symud, ac eithrio lle y bo hynny’n gysylltiedig â materion diogelwch ac ni chânt eu rhwystro rhag mynd a dod fel y dymunant. Caiff plant y rhyddid i ddewis pa weithgareddau chwarae y maent am gymryd rhan ynddynt a chyda phwy y maent yn chwarae.
- Meysydd chwarae antur: ardal mynediad agored wedi’i staffio gan weithwyr chwarae hyfforddedig, lle y gall plant ddod o hyd i ddeunyddiau a chymorth i ddatblygu ac addasu eu hardal chwarae eu hunain i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae’n amgylchedd chwarae da sy’n gwneud iawn am y diffyg manau naturiol hygyrch sydd ar gael ar hyn o bryd lle y gall plant chwarae yn annibynnol ar oedolion.
- **Prosiect gwaith chwarae peripatetig (ceidwaid chwarae):** Prosiect mynediad agored, byrdymor yn aml, a gaiff ei staffio gan dîm bach o weithwyr chwarae hyfforddedig, sy’n ymweld â man gwahanol, parc, ardal chwarae ar ystâd neu fan cyhoeddus arall, unwaith neu ddwywaith yr wythnos am ychydig oriau. Bydd ganddynt syniadau ac offer, a byddant yn gweithio i helpu i ddarparu manau chwarae i blant yn eu hardal leol, ac i roi tawelwch meddwl i rieni ei bod yn ddiogel i blant chwarae yn yr awyr agored.
- **Gwaith chwarae:** Mae gwaith chwarae yn broffesiwn medrus iawn sy’n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae oedolion yn cefnogi plant wrth iddynt chwarae ond nid canlyniadau rhagnodedig o ran addysg neu ofal yw symbyliad y chwarae hwnnw. (SkillsActive).
- **Y gweithlu chwarae:** Yn cynnwys unrhyw weithiwr cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar chwarae plant – pobl sydd naill ai’n hwyluso’r chwarae’n uniongyrchol, yn cynllunio cyfleoedd chwarae, neu sydd â’r grym i ganiatáu i blant chwarae neu beidio.

